**Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd o bell drwy fideogynadledda ddydd Mercher, 06 Hydref 2021**

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr Bryan Davies (Cadeirydd) Gethin Davies, Marc Davies, Elaine Evans, Hag Harris, Alun Lloyd-Jones, Lyndon Lloyd MBE, Dan Potter, John Roberts ac Ivor Williams.

**Aelodau Cabinet yn bresennol**: Y Cynghorwyr Rhodri Evans, Catherine Hughes, Gareth Lloyd, Catrin Miles, Ray Quant, ac Alun Williams

**Swyddogion yn bresennol**: Mrs Nerys Lewis, Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Uniongyrchol; Mrs Donna Pritchard – Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal; Ms Sian Howys, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Porth Cynnal - Gwasanaethau Plant; Mrs Heather West – Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Tymor Byr wedi'u Targedu; Mr John Callow, Rheolwr Corfforaethol – Camddefnyddio Sylweddau; Mrs Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a Mrs Dana Jones, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

(10:00 am -12:45pm)

1 **Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cynghorwyr Paul Hinge a Lynford Thomas am na fedrent ddod i'r cyfarfod

2 **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

Dim.

3 **Diweddariad ar recriwtio Gofalwyr Maeth yng Ngheredigion sy'n Siaradwyr Cymraeg**

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal a oedd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ynglŷn â Gofalwyr Maeth yng Ngheredigion sy'n siaradwyr Cymraeg. Aelodau'r Pwyllgor oedd wedi gofyn am y diweddariad.

Dywedwyd bod y Gwasanaeth Maethu yng Ngheredigion yn darparu lleoliadau hirdymor a thymor byr ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion. Ystod oedran y gwasanaeth oedd plant o'u geni hyd at 18 mlwydd oed. Ar hyn o bryd, roedd gan Gyngor Sir Ceredigion 31 o Deuluoedd Maeth cofrestredig.

Roedd gan y Sir hefyd 16 o ofalwyr sy'n berthnasau (a oedd hefyd yn cael eu hadnabod fel teulu a ffrindiau) ac roeddent wedi symud ymlaen drwy'r un prosesau â'r Gofalwyr Maeth prif ffrwd. Roeddent wedi'u cofrestru i roi gofal a chefnogaeth i blentyn/plant sy'n derbyn gofal penodol, fel yr amlinellir yn eu cofrestriad unigol. Lleolir y gofalwyr hyn ledled y Deyrnas Unedig.

Ar hyn o bryd, roedd llai na 5 o blant mewn lleoliadau maethu prif ffrwd/maethu gan berthnasau yng Ngheredigion a oedd wedi nodi mai'r Gymraeg oedd yr iaith a ffefrir ganddynt. Fodd bynnag, roedd yna blant a oedd yn derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ac roedd y gwasanaeth yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg a'i diwylliant.

Rhannwyd y tabl isod a oedd yn rhoi trosolwg o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â gallu gofalwyr maeth o ran y Gymraeg;

| Lefel ALTE | Gwrando a siarad Cymraeg (nifer y gofalwyr) | Darllen Cymraeg (nifer y gofalwyr) | Ysgrifennu Cymraeg (nifer y gofalwyr) |
|---|---|---|---|
| 0 | 6 | 11 | 14 |
| 1 | 9 | 9 | 5 |
| 2 | 5 | 1 | 2 |
| 3 | 2 | 0 | 1 |
| 4 | 0 | 1 | 0 |
| 5 | 1 | 1 | 1 |

O ran meysydd gwasanaeth yr oedd angen eu datblygu ymhellach, nodwyd y canlynol:-

- Recriwtio - Elfen allweddol ar gyfer y gwasanaeth wrth symud ymlaen yw gweithio gydag ymgyrchoedd recriwtio Cenedlaethol a Rhanbarthol a fydd yn rhoi ystod o gyfleoedd wedi'u targedu'n benodol sy'n defnyddio adnoddau Cenedlaethol gan gynnwys y cyfryngau e.e. hysbysebion ar S4C ac ITV. Ychwanegir at hyn gan gynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu Sirol a fydd yn canolbwyntio ar dargedu ymgyrchoedd penodol wedi'u gyrru gan anghenion dynodedig ar gyfer ein Plant sy'n Derbyn Gofal yng Ngheredigion e.e. ymgysylltu â chlybiau Ffermwyr Ifanc, Merched y Wawr a grwpiau yn y gymuned ehangach.
- Cefnogi Iaith - rhoi cyfleoedd i Ofalwyr Maeth Ceredigion wella eu sgiliau iaith drwy gael mynediad i hyfforddiant a chyfleoedd a ddarperir drwy Borth Cymorth Cynnar.
- Cefnogaeth ddiwylliannol - datblygu cynllun integreiddio a chymdeithasu blynyddol gan fanteisio i'r eithaf ar dreftadaeth a diwylliant Ceredigion a rhoi'r wybodaeth a'r mynediad i'r Gofalwyr Maeth i gyfoeth o weithgareddau'n ymwneud â diwylliant a threftadaeth ac amgylcheddau naturiol yn lleol. Bydd y gwasanaeth yn gweithio mewn cydweithrediad â Phorth Cymorth Cynnar, yr adran Addysg a sefydliadau trydydd sector i ehangu a dathlu'r cyfoeth o ddarpariaeth leol sydd ar gael i Ofalwyr Maeth Ceredigion.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD ynghylch y canlynol:-
(i) nodi'r adroddiad er gwybodaeth;

(ii) bod adroddiad cynnydd am y Gwasanaeth Maethu yn cael ei gyflwyno yn un o gyfarfodydd y dyfodol;
(iii) rhoi'r eitem hon ar Flaenraglen Waith y Pwyllgor; a
(iv) diolch i'r gwasanaeth am ei holl waith o fewn y Gwasanaeth Maethu

**4 Darpariaeth Gofal Cartref**

Ystyriwyd Adroddiad y Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Porth Gofal am y ddarpariaeth Gofal Cartref yng Ngheredigion.

Dywedwyd bod y ddarpariaeth Gofal Cartref dros nifer o flynyddoedd yng Ngheredigion wedi parhau i gael ei ddiwallu drwy'r Fframwaith Comisiynu ar gyfer Caffael, er mwyn darparu gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth unigol. Yr enw ar y broses hon oedd e-dendro. Ar ôl bodloni cyfres o ofynion caffael, roedd holl ddarparwyr Ceredigion yn cael eu cofrestru ar gyfer y Fframwaith ac yna roeddent yn gallu derbyn contractau am wasanaethau gyda Chyngor Sir Ceredigion.

Cyn gynted ag y bo gweithiwr cymdeithasol wedi nodi anghenion gofal cymwys, yn sgil Asesiad yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, byddai cais am wasanaeth yn cael ei wneud. Cyn gynted ag y bo hwn wedi ei gadarnhau, byddai'r hysbysiad yn cael ei roi ar borthol caffael e-dendro ar GwerthwchiGymru. Yna, byddai'r darparwyr a oedd wedi'u cofrestru i ddarparu gofal yng Ngheredigion yn gallu edrych ar y pecynnau gofal oedd eu hangen yn y gymuned a chyflwyno cynigion er mwyn darparu'r gofal hwnnw. Byddai'r cynigion hyn yn cael eu gwneud i'r teulu ac unwaith y byddent wedi'u derbyn, byddai trefniadau yn cael eu gwneud er mwyn dechrau ar y gofal. Os byddai'r teulu yn gwrthod y cynnig (er enghraifft os na fyddai'r amserau gofal yn bodloni eu dewis personol ac os na fyddai modd dod o hyd i gyfaddawd), yna byddai'r cais am ofal yn parhau ar y porthol caffael hyd nes y byddai cynnig arall yn dod i law. O ran anghenion gofal cymhleth iawn, gallai'r pecyn gofal a chymorth gynnwys anghenion gofal a fyddai'n gofyn am 2 aelod o staff gofal am hyd at 4 gwaith y dydd, 7 niwrnod yr wythnos, 52 wythnos y flwyddyn. Byddai'r anghenion gofal eraill yn cynnwys yr holl anghenion hyd at yr ymyraethau ar lefel is, sef gofal unwaith neu ddwywaith yr wythnos i gynorthwyo gyda rhoi bath a chawod, er enghraifft. Roedd Gofal a Chymorth yn y cartref yn canolbwyntio ar gyflenwi sgiliau er mwyn darparu gofal personol ac anghenion llesiant.

Drwy gydol pandemig y Covid-19, roedd y Darparwyr Gofal Cartref wedi gweithio'n ddiflino i ddiwallu anghenion gofal a chymorth ein cymunedau. Roedd y staff yn parhau i ddarparu cymorth i unigolion bregus er eu bod yn cynyddu'r risg iddynt hwy eu hunain a'u teuluoedd wrth iddynt roi gofal a chymorth a oedd yn golygu eu bod yn agos atynt. Roedd ymdrechion y staff hyn wedi eu cydnabod, ac yn parhau i gael eu cydnabod, yn ymdrechion eithriadol ar adeg nas gwelwyd ei thebyg o'r blaen.

Yn dilyn trafodaeth hir, cynigiodd un o Aelodau'r Pwyllgor argymhelliad i'r Cabinet a chafodd y cynnig ei eilio gan aelod arall. Nid oedd rhai o'r aelodau yn gyfforddus â'r argymhelliad hwn am amrywiol resymau ac felly cynhaliwyd pleidlais ymhlith aelodau'r Pwyllgor.

Roedd canlyniad y bleidlais fel a ganlyn:- roedd 4 o blaid y cynnig, 1 yn erbyn ac 8 wedi ymatal.

Gan fod 4 o blaid y cynnig, CYTUNWYD i:
(i) nodi'r adroddiad er gwybodaeth,
(ii) argymell i aelodau'r Cabinet eu bod yn ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio cyllid o gronfeydd wrth gefn y Cyngor i ddarparu pecyn ariannu arloesol er mwyn cefnogi'r broses o recriwtio staff i'r Sector Darparwyr Gofal Cartref lle mae'r angen yn fawr;
(iii) cefnogi'r broses o gyflwyno Cynllun Taliad Bonws am Atgyfeirio a ddefnyddiwyd mewn cartref Gofal Preswyl i annog gweithwyr i'r maes hwn; a
(iv) diolch i bawb sy'n rhan o'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth Gofal Cartref

**5 Camddefnyddio Sylweddau yng Ngheredigion a'r gwasanaethau a ddarperir**

Rhoddwyd cyflwyniad pwynt pŵer i'r Aelodau am gynnwys yr adroddiad a gyflwynwyd ac amlinellwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022 (Diwygiwyd mewn Ymateb i Covid-19)
- Y Darlun Cenedlaethol
- Alcohol
- Ystadegau Meddygon Teulu Ceredigion
- Gwasanaethau yng Ngheredigion
- Info Base Cymru- 2019-2020 Hywel Dda Ceredigion
- Barod
- Achosion gerbron Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Cyngor Sir Ceredigion
- Yr Heddlu - mynd i'r afael â chyflenwadau
- Troseddau meddiant cyffuriau – Data Heddlu Dyfed-Powys
- Troseddau Masnachu Cyffuriau – Data Heddlu Dyfed-Powys
- Marwolaethau yn gysylltiedig â chyffuriau fesul Sir
- Gorddosau sydd ddim yn angheuol fesul Sir

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

**6 Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4, 2020-2021**

Ystyriwyd Adroddiad Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth Adolygu Annibynnol Chwarter 4 2020 - 2021. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn monitro cynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal drwy waith craffu Swyddogion Adolygu Annibynnol o'u cynlluniau a'u lleoliadau yn ystod pedwerydd chwarter 2020/2021. Roedd y wybodaeth hon yn cynorthwyo'r Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau fel Rhieni Corfforaethol.

Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys y safonau a'r targedau cenedlaethol a lleol a ddefnyddir i fesur y canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi gadael gofal adeg eu cyfarfod adolygu, ac roedd yn cynnwys Dangosyddion Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Ar sail y wybodaeth sydd ar gael a'r hyn a fynegwyd yn ystod y cyfarfod adolygu, daw'r Swyddog Adolygu Annibynnol i farn broffesiynol ynghylch effeithiolrwydd cynllun gofal y plentyn/ person ifanc o ran bodloni ei anghenion, a gall argymell newidiadau i'r cynllun gofal.

Yn ystod y cyfarfod adolygu bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes angen cymorth ar y plentyn/ person ifanc i nodi pobl eraill berthnasol er mwyn iddynt roi cyngor cyfreithiol/ cymryd camau ar ei ran. Roedd y Swyddog Adolygu Annibynnol o'r farn nad oedd angen cymryd y cam hwn ar gyfer unrhyw blentyn yn ystod y cyfnod dan sylw.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol yn ystyried a oes unrhyw dramgwydd yn erbyn hawliau dynol y plentyn/ person ifanc a gallai gyfeirio'r achos at CAFCASS Cymru. Ni chododd yr angen i wneud hynny mewn unrhyw adolygiad yn ystod y cyfnod hwn.

Mae'r adroddiadau hyn yn cael eu hystyried o fewn Cyfarfodydd Sicrhau Ansawdd Amlasiantaethol ‘Plant sy'n Derbyn Gofal’ sy'n cwrdd bob chwarter; mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i nodi a gweithredu ar berfformiad a materion eraill yn ymwneud â'r maes gwaith hwn.

Mae'r adroddiadau hyn hefyd yn cael eu cylchredeg a'u hadolygu gan Grŵp Rhianta Corfforaethol yr Awdurdod Lleol dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Alun Williams, Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Plant a Diwylliant, a chynhelir y cyfarfodydd hyn bob chwarter.

CRYNODEB O’R PRIF BWYNTIAU:

- Ar ddiwedd y Chwarter hwn, sef Chwarter 4, ar 31 Mawrth 2021, roedd 85 o blant yn derbyn gofal gan yr Awdurdod Lleol. Mae hyn yn gynnydd o ran nifer y plant sy'n derbyn gofal. Ar ddiwedd Chwarter 3 roedd 79 o blant yn derbyn gofal.
- Adolygwyd 58 o blant yn y chwarter hwn. Adolygwyd 89.7% o fewn yr amserlen statudol.
- Dychwelwyd un plentyn adref i'r teulu yn ystod y chwarter hwn, o'i gymharu â phedwar plentyn yn Chwarter 3.
- Roedd y ddarpariaeth o ran lleoli’r plant a adolygwyd yn y chwarter hwn yn amrywio o 20 a leolwyd mewn Darpariaeth Gofal Maeth Awdurdod Lleol, 12 a leolwyd gyda theulu, 9 a leolwyd gyda rhieni, 8 mewn Darpariaeth Gofal Maeth Annibynnol, 3 mewn gofal preswyl a 3 gyda gofalwyr sy'n berthnasau.
- O blith y plant a adolygwyd yn y chwarter hwn, cafodd 87.9% ohonynt ymweliad statudol.
- Roedd 32 o blant a adolygwyd yn destun Gorchymyn Gofal Llawn, roedd 16 yn destun Gorchymyn Gofal Dros Dro, 1 yn destun Gorchymyn Lleoli ac roedd 9 o dan statws cyfreithiol Adran 76.
- Cofnodwyd bod 100% o'r cynlluniau gofal a chymorth yn diwallu anghenion y plant/pobl ifanc a adolygwyd yn y chwarter hwn.
- Nifer a chanran y plant (o ddealltwriaeth ddigonol) a fu’n ymwneud â'u hadolygiad neu yr ymgynghorwyd â nhw, oedd 100%.

- Nifer a chanran y plant a gafodd wybod am eu hawl i gael gwasanaeth eiriolaeth, oedd 100%.
- Canran y bobl ifanc a oedd yn gymwys i gael Cynllun Llwybr ac sydd gydag un ar waith, ac ymgynghorydd personol i'w cefnogi, yw 100%.
- Cwblhawyd 25 o Adolygiadau Cynllun Llwybr yn y chwarter hwn. Cwblhawyd 80% o fewn yr amserlen.
- Dangosodd 96% o'r Adolygiadau a wnaed fod y Cynlluniau Llwybr a oedd ar waith yn diwallu anghenion y bobl ifanc.
- Roedd 80% o'r Adolygiadau Cynllun Llwybr a wnaed naill ai'n cynnwys cynrychiolaeth o farn y person yn yr adolygiad neu roedd y person ifanc yn bresennol yn ei adolygiad.

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, CYTUNWYD i nodi'r sefyllfa bresennol.

**7 Drafft Blaenraglen Waith 2021-2022**

Ystyriwyd Blaenraglen Waith 2021-22 fel y'i cyflwynwyd. CYTUNWYD i nodi'r eitemau yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau cynnydd a ofynnwyd amdanynt ynglŷn â recriwtio Gofalwyr Maeth yng Ngheredigion sy'n siaradwyr Cymraeg a'r ddarpariaeth Gofal Cartref.

**8 Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor 17 Medi 2021 ac unrhyw faterion sy'n codi ohonynt**

Penderfynodd y Pwyllgor gadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Medi yn rhai cywir.

Materion yn codi
Dim.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach a gynhaliwyd ar Dydd Mercher, 20 Hydref 2021**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:_________________**